Drwy e-bost

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg

01 Rhagfyr 2020

Annwyl Weinidog

Yn ein hymateb i'ch cyfarwyddyd dyddiedig 24 Tachwedd 2020, gwnaethom nodi bod Bwrdd Cymwysterau Cymru wedi cytuno ar egwyddorion a fyddai'n cael eu cymhwyso i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r model asesu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy yn haf 2021.

Yn dilyn y cyngor y byddwch yn ei dderbyn gan eich Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, deallwn y byddwch yn nodi eich cyfeiriad polisi ar gyfer y model asesu a bydd yr egwyddorion isod yn rhan o broses benderfynu Bwrdd Cymwysterau Cymru.

Egwyddorion

1. Rhaid i'r model asesu:

    a. roi eglurder i ddysgwyr ynghylch pa asesiadau fydd yn cyfrif tuag at eu graddau terfynol
    b. defnyddio asesiadau sy'n cynrychioli cynnwys y cymhwyster fel y nodir yn y fanyleb
    c. anelu at gynyddu'r siawns y bydd pob dysgwr yn gyfarwydd â'r cynnwys y bydd yn cael ei asesu arno
    d. cefnogi trefniadau cynhyrchu tystiolaeth perfformiad gyson ar draws canolfannau
    e. bod yn gyflawnadwy ac yn hylaw i ddysgwyr, canolfannau a CBAC
    f. gallu darparu ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn astudio mewn canolfan
    g. caniatáu ar gyfer proses apelio sy'n deg ac yn dryloyw i ddysgwyr ac yn hylaw i ganolfannau a CBAC
    h. caniatáu i CBAC a chanolfannau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Gyfraith Cydraddoldeb, gan gynnwys cael trefniadau clir ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol i asesiadau, a sicrhau nad yw asesiad yn cynhyrchu canlyniadau afresymol o niweidiol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd neu amgylchiad cyffredin.

Cymwysterau Cymru
Q2 Building, Pencarn Lane
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

2. Rhaid cael proses sicrhau ansawdd, dan arweiniad CBAC, sy'n caniatáu dyfarnu graddau dim ond lle:

    a. mae tystiolaeth ddigonol o gyrhaeddiad ar y radd honno ar gyfer pob dysgwr
    b. mae'r dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer penderfyniadau graddio yn gyson

3. Er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr yng Nghymru dylid defnyddio safon debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddyfarnu cymwysterau sy'n gredadwy.

4. Rhaid i'r parti sy'n cynnal yr asesiad hwnnw fod yn atebol am apeliadau (e.e. CBAC am farcio'r corff dyfarnu, ysgolion am farcio athrawon).

Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr blaenorol, credwn ei bod yn bwysig bod y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni hefyd yn ymwybodol o'r egwyddorion hyn wrth iddynt ystyried eu cynigion manwl ar gyfer y model asesu. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi eu rhannu â Chadeirydd y Grŵp.

Gobeithiwn fod yr egwyddorion yn glir ac yn dryloyw. Byddem yn croesawu'r cyfle i gynnig unrhyw eglurhad y gallai fod ei angen arnoch.

Yn gywir,

David B Jones OBE DL
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr